

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos
Fawrth, 1af Medi 2020 drwy fynychu o
bell**

**Minutes of a meeting of the Council
held at 7:30 pm on Tuesday, 1st
September 2020 by way of remote
attendance**

Yn bresennol:
Cadeirydd: y Cynghorydd Phil Tomlins; y
Cynghorwyr Sheila Davies, Lowri Jones,
Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan
Tomlins a Caryl Vaughan.
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:
Chairman: Councillor Phil Tomlins;
Councillors Sheila Davies, Lowri Jones,
Gwenno Piette, Aled Roberts, Bryan
Tomlins and Caryl Vaughan.
County Councillor Dafydd Edwards
Denfer Morgan (Clerk)

529 Ymddiheuriadau

Ymddiheuriodd y Cynghorwyr Jim
Hughes, Lodwick Lloyd a Dennis Morgan
am fethu a bod yn bresennol yn y
cyfarfod.

529 Apologies

Councillors Jim Hughes, Lodwick Lloyd
and Dennis Morgan apologised for their
inability to attend the meeting.

**530 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a
gynhaliwyd ar 4ydd Awst 2020**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r
Cyngor a gynhaliwyd ar 4ydd Awst 2020
fel rhai cywir, yn amodol ar gynnwys enw
cywir Capel Siloh yn fersiwn Saesneg
Cofnod 527.

**530 Minutes of the Monthly Meeting held
on 4th August 2020**

The Minutes the Meeting of the Council
held on 4th August 2020 were confirmed as
being a correct record, subject to including
the correct name for Siloh Chapel in the
English version of Minute 527.

531 Materion yn codi o'r Cofnodion

- a) Cofnod 520a) – biniau. Dywedodd y
Cadeirydd ei fod yn trafod cael gafael ar
byst a'r gosodiadau priodol.
- b) Cofnod 520b) – cŵn yn baeddu.
Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi
defnyddio'r caniau chwistrellu a
PHENDERFYNWYD ei awdurdodi i
brynu rhagor o ganiau.
- c) Cofnod 520c) Dywedwyd fod y postyn
a'r arwydd ar gyfer llwybr cyhoeddus
33/10 yn Albion Place wedi'i dderbyn ac
y byddai'n cael ei godi yn fuan.
- d) Cofnod 520d) Dywedodd y Cynghorydd
Aled Roberts ei fod yn dilyn i fyny
argaeledd grantiau ar gyfer gosod
mannau tanio ceir trydanol.
- g) Cofnod 520g) – Maes Chwarae Llanon.
Dywedodd y Clerc ei fod wedi cyfeirio tri
mater at Ysgrifennydd y Pwyllgor Rheoli
sef:

531 Matters arising from the Minutes

- a) Minute 520a) – bins. The Chairman
stated that he was investigating acquiring
appropriate posts and fixings.
- b) Minute 520b) – dog fouling. The Chairman
stated that he had used the spray cans
and it was **RESOLVED** to authorise him to
purchase additional cans.
- c) Minute 520c) It was stated that the post
and sign for public footpath 33/10 at Albion
Place had been delivered and would be
erected shortly.
- d) Minute 520d) Councillor Aled Roberts
advised that he was following up the
availability of grants for the installation of
electric car charging points.
- g) Minute 520g) – Llanon Playing Field. The
Clerk stated that he had referred three
matters to the Management Committee,
Secretary namely:

- problem y creulys
- y ffens a ddifrodwyd
- y cais i osod mainc yn ymyl y man chwarae.

Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir os oedd ganddynt mainc and oedd ei angen arnynt at y pwrpas hwn.

532 Archwiliad o Eiddo

Dywedodd y Cynghorydd Phil Tomlins ei fod wedi bwrw golwg dros sedd y siglen yn dilyn derbyn cwyn ond wedi canfod ei fod mewn cyflwr da. Dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi rhoi gwybod na fyddent yn yn gallu darparu gwasanaeth archwilio na thrwsio yn y dyfodol.

Y man eistedd: rhoddwyd bin fan hyn a oedd yn cael ei ddefnyddio i adael sbwriel. Gofynwyd i'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards drefnu ailosod y bin oedd ar y postyn ger yr arosfan bws. Cytunwyd hefyd gofyn i'r siop sglodion ddarparu bin a threfnu ei fod yn cael ei wagio a bod y sbwriel yn cael ei waredu. Llwybrau cyhoeddus: Dywedodd y Cynghorydd Sheila Davies ei bod wedi cerdded ar hyd y llwybrau a bod y toriadau yn cael eu gwneud mewn modd boddhaol.

533 Meinicau

Adroddodd y Clerc gohebiaeth oddi wrth unigolyn yn datgan pryder fod mainc coffa wedi diflannu o'i sylfaen ar lain y Cyngor ac yn dweud fod y Cyngor wedi cytuno cymryd cyfrifoldeb am y fainc. Cafwyd trafodaeth ar y mater. Nodwyd and oedd y Cyngor wedi cytuno cymryd cyfrifoldeb am feinciau coffa ar unrhyw bryd. Prun bynnag, fel arwydd o ewyllus da, roedd wedi cynnwys meinciau o'r fath yn ei restr o feinciau oedd angen eu trwsio / adnewyddu ac wedi'u cynnwys yn y contract diweddar.

Prun bynnag, erbyn hynny, roedd wedi dod i'r amlwg fod cyflwr y fainc wedi gwaethygu i'r fath raddau fel na allwyd ei drwsio a bu rhai ei symud o'i sylfaen a bod y plac wedi'i roi i aelod lleol o'r teulu ar gyfer ei gadw'n ddiogel.

Fel a grybwyllwyd gan yr achwynydd, cafodd y fainc ei osod yn ei le yn 2002 a

- the ragwort
- the damaged fence
- the request to locate a bench next to the playground.

It was agreed to request the County Council whether a surplus bench was available for this purpose.

532 Property Inspection

Playground: Councillor Phil Tomlins stated that he had inspected a swing seat following receipt of a complaint but it had found to be in good condition. The Clerk stated that the County Council had indicated that they would not be able to provide inspections and repairs in future.

Seating area: a bin had been placed here which was being used to deposit rubbish. County Councillor Dafydd Edwards was asked to arrange for the bin to be replaced on the post near the bus stop. It was also agreed to request the chip shop to provide a bin and arrange for its emptying and the disposal of the rubbish.

Public footpaths: Councillor Sheila Davies stated that she had walked the footpaths and that the cutting of the growth was being done in a satisfactory manner.

533 Benches

The Clerk reported correspondence received from an individual expressing concern that a memorial bench had disappeared from its base at the Council's slang and saying that the Council had agreed to take responsibility for the bench.

There followed a discussion on the matter. It was noted that at no time had the Community Council agreed to take responsibility for memorial benches. However, as a gesture of goodwill, it had included such memorial benches in its schedule of benches needing repairs / renovations and had been included in the recent contract.

However, by then, it appears that the condition of the bench had deteriorated to such an extent that it was beyond repair and had to be removed from its base and the plaque was given to a local family

y byddai'n anochel ei fod wedi diwoddef difrod oherwydd y tywydd rhwng y dyddiad hwnnw ac eleni heb gael ei gynnal a chadw'n reolaidd. Prun bynnag, cytunwyd gofyn os oedd mainc and oedd ei angen ar gyfer y man hwn hefyd,

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc ateb yr achwynydd yn amlinellu safiad y Cyngor.

534 Y Chalet

PENDERFYNWYD cadarnhau'r taliad o £240 i Emyr Harries ar gyfer dymchwel a gwaredu'r chalet presennol. Nodwyd fod Dafydd Edwards y byddai'n cysylltu gyda Emyr Harries gyda'r costau diweddaraf. Dywedodd y Cynghorydd Phil Tomlins fod angen symud y fframwaith dur i fan mwy diogel a chytunwyd trefnu gwneud y gwaith hwn Dywedodd hefyd ei fod wedi methu dod o hyd i berchnogion cychod a adawyd ar y llain a chytunwyd eu bod yn cael eu gadael yn y fan a'r lle.

535 Materion Ariannol

PENDERFYNWYD talu'r anfonebau canlynol
Cyflog y Cerc (Gorff-Awst-Medi):
Denfer Morgan £636.48
CThem (TWE) £159.12

536 Materion Cynllunio

- a) A200588 Whitehall Garage Stryd Fawr, Llanon. Ystafell arddangos arfaethedig ac adeilad gweithdy/MOT yn lle'r gweithdy presennol.

PENDERFYNIAD: Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:-

Y mae'r Cyngor o'r farn fod elfen ystafell arddangos y datblygiad yn foddhaol ac fe fydd yn gwella golwg y modurdŷ sydd yn gwynebu'r Stryd Fawr. Prun bynnag, y mae am wrthwynebu elfen

member for safekeeping.

As it was stated by the complainant, the bench had been placed on site in 2002 and would have inevitably suffered weather damage between that date and this year without regular maintenance.

However, it was agreed to ask whether a surplus bench was available for this site as well.

It was **RESOLVED** to request the Clerk to reply to the complainant outlining the Council's position.

534 The Chalet

It was **RESOLVED** to confirm the payment of £240 to Emyr Harries for the demolition and disposal of the existing chalet. It was noted that Dafydd Edwards would be in contact with Emyr Harries with updated costs. Councillor Phil Tomlins stated that the steel framework needed to be moved to a safer place and it was agreed to arrange for this work to be done. He also stated that he had failed to locate the owners of boats left on the slang and it was agreed that they be left on site.

535 Finance Matters

It was **RESOLVED** to pay the following invoices:
Clerk's Salary (July-Aug-Sept):
Denfer Morgan £636.48
HMRC (PAYE) £159.12

536 Planning Matters

- a) A200588 Whitehall Garage Stryd Fawr, Llanon. Proposed showroom and MOT/workshop building to replace existing workshop.

Decision: To object to the application for the following reasons:-

The Council is of the opinion that the showroom element of the development is satisfactory and will enhance the appearance of the garage fronting y Stryd Fawr. However, it wishes to object to the workshop/MOT element of the

gweithdŷ/MOT y datblygiad am y rhesymau canlynol:

- lleolir y datblygiad arfaethedig mewn ardal breswyl ac y byddai'n well iddo gael ei leoli ar safle ddiwydiannol
- fe fydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at lygredd swm a fydd yn amharu ar eiddo sy'n ffinio gydag ef
- fe all y datblygiad arfaethedig arwain at lygredd gan nid ymddengys fod system hidliad aer wedi'i gynnwys yn y cais
- y mae'r defnyddiau fflamadwy ar defyddiau eraill ar y safle fel tanwydd, nwyon a gwastraff yn creu perygl tân difrifol i eiddo sy'n ffinio ag ef
- dëllir fod yna garthffos wedi'i leoli o dan rhan o'r safle sydd yn ei wneud yn anaddas ar gyfer ei ddatblygu.

b) **A200612** – Tir yr Ardd Bori, Stryd yr Eglwys, Llanon. Variation amod 2 (cynlluniau a gymeradwywyd) caniatâd cynllunio A090699.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ac i ofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol osod terfyn amser ar gyfer cychwyn y gwaith gan fod y caniatâd gwreiddiol wedi'i roi yn 1990.

c) **A200670** - Whitehall Stryd Fawr, Llanon. Estyniad un llawr yn lle'r estyniad a'r ystafell haul presennol.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

537 Materion Covid-19 – y defnydd o ganolfannau cymunedol
Nodwyd y disgwyliad canllawiau gan Llywodraeth Cymru ynghylch agor canolfannau cymunedol fel neuaddau pentref a festrion ar gyfer cynnal cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ac y byddai unrhyw benderfyniad ar gynnal cyfarfod mis Hydref yn dibynnu ar

development for the following reasons:

- the proposed development is located in a residential area and would be better suited for locating in an industrial site
- the proposed development will give rise to noise pollution which will adversely affect neighbouring properties
- the proposed development may result in pollution as there appears to be no air filtration system included in the application
- the flammable and other materials stored on the site, such as fuels, tyres, gases and waste, present a serious fire hazard to adjoining properties
- it is understood that a sewer is located under a part of the site which makes it unsuitable for development.

b) **A200612** - Land at Ardd Bori, Church Street, Llanon. Variation of condition 2 (approved plans) of planning permission A090699.

Decision: No objection and to request the Local Planning Authority to place a time limit for the commencement of the work as the original approval had been given in 1990.

c) **A200670** - Whitehall Stryd Fawr, Llanon. Proposed single storey extension to replace existing lean-to extension and conservatory.

Decision: No objection

537 Covid-19 Matters – Use of Community Centres

It was noted that guidance was awaited from the Welsh Government in respect of allowing the opening of community centres such as village halls and vestries for hosting meetings and other activities and any decision on the holding of the October meeting would depend on such

dderbyn cyngor o'r fath.

- 538 Gwefan Newydd ar gyfer y Cyngor**
Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Clerc ar y cynigion a'r prisiau a dderbyniwyd gan dri gwmni arbenigol i greu a chynnal gwefan newydd i'r Cyngor a fyddai'n cwrdd gyda gofynion y Rheoliadau newydd.
PENDERFYNWYD dewis y pecyn a gynigir gan Vision ICT ac i drafod gyda nhw yr opsiwn ar gyfer ychwanegu tudalennau ychwanegol yn ymwneud â'r gymuned ac i adrodd 'nol i'r cyfarfod nesaf.
- 539 Tir ger y Fynedfa i Faes Parcio'r Waun**
Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Clerc ar gais a dderbyniwyd oddi wrth berchnogion Rhif 2 Sutherlands i brynu'r darn yma o dir. Dywedodd y Clerc ei fod hefyd mewn cysylltiad gyda thrigolyn ynghylch ei ddefnyddio fel gardd perlysiâu.
PENDERFYNWYD gosod eitem ar agenda cyfarfod nesa'r Cyngor.
- 540 Maes Chwarae Llanon**
Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Clerc ar y posibilrwydd o berchnogi Maes Chwarae Llanon a'r goblygiadau posib i'r Cyngor ar gyfer ei gynnal a chadw yn y dyfodol.
PENDERFYNWYD cytuno gwneud ymholiadau cychwynol gyda'r Pwyllgor Rheoli yn y lle cyntaf ac i ystyried y mater ymhellach ar yr amser priodol.
- 541 Unrhyw fater cymwys arall**
a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Sheila Davies at y coed sy'n gorhangian yn beryglus yn Stryd y Capel a chytunodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ddilyn hwn i fyny. Fe gyfeiriodd y Cynghorydd Davies hefyd at ateb a gafodd gan y Post Brenhinol parthed y blwch postio a oedd wedi'i gymryd o'i safle yn Llansantffraed. Dywedodd y Clerc ei fod hefyd wedi cael ateb.
PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gael

advice being received.

- 538 New Website for the Council**
Consideration was given to the Report of the Clerk on the proposals and prices received from three specialist companies to produce and host a new website for the Council in order to meet the requirements of the new Regulations.
It was **RESOLVED** to choose the package offered by Vision ICT and to discuss with them option of adding further community pages to the site and to report back to the next meeting.
- 539 Land at Entrance to Waun Car Park**
Consideration was given to the Report of the Clerk on a request received from the owners of No. 2 Sutherlands to purchase this parcel of land. The Clerk also stated that he was in contact with a resident with regard to its use as a community herb garden.
It was **RESOLVED** to place an item on the agenda for the next meeting of the Council.
- 540 Llanon Playing Field**
Consideration was given to the Report of the Clerk on the possibility of acquiring the Llanon Playing Field and the possible implications of its future maintenance and costs on the Council.
It was **RESOLVED** to agree to make initial enquiries with the Management Committee in the first instance and to consider the matter further at the appropriate time.
- 541 Any Other Competent Business**
a) Councillor Sheila Davies referred to dangerous overhanging trees at Stryd Y Capel which County Councillor Dafydd Edwards agreed to follow up. Councillor Davies also referred to a reply she had had from Royal Mail in respect of the post box which had been removed from its place Llansantffraed. The Clerk advised that he had also received a reply. It was **RESOLVED** to request the Clerk to clarify Royal Mail's intentions for the post

eglurhâd am fwriad y Post Brenhinol ar gyfer y blwch postio.

- b) Dywedodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd nad oeddent ar gael i fynychu cyfarfod mis Hydref a dywedodd y Clerc mai'r drefn arferol oedd i'r cyfarfod gael ei gadeirio gan y cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Lowri Jones.
- c) Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Tomlins at y trafodaethau a oedd yn parhau rhwng Dylan Jones o'r White Swan a'r Cyngor Sir parthed agor toiledau cyhoeddus y Waun a nodwyd y byddai'n derbyn hyfforddiant gyda'r bwriad o gymryd cyfrifoldeb am y toiledau.
- d) Cyfeiriodd y Cynghorydd Lowri Jones at gais a dderbyniwyd i leoli tri bin baw cŵn mewn lleoliadau yn Nebo a chytunodd y Cynghorydd Phil Tomlins ddilyn hwn i fyny.
Dywedodd y Cynghorwyr Jones ac Aled Roberts fod yna gwynion o hyd am oryrru a thagfeydd traffig yn Llanon a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc gael eglurhâd gan Lywodraeth Cymru parthed y cyfyngiadau parcio arfaethedig.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones hefyd at y Grant Trawsnewid Trefi a dywedodd y Clerc y byddai'n gofyn am eglurhâd os oedd yn berthnasol i bentrefi.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15pm

box.

- b) The Chairman and Vice-Chairman stated that they were unable to attend the October meeting and the Clerk advised that the convention was that the meeting be chaired by the immediate past Chairman, Councillor Lowri Jones.
- c) Councillor Bryan Tomlins referred to the on-going discussions between Dylan Jones of the White Swan Hotel and the County Council with regard to opening the Waun public toilets and it was noted that he would be undertaking training with a view to taking responsibility for the toilets.
- d) Councillors Lowri Jones referred to a request for three dog mess bins to be provided at locations in Nebo and Councillor Phil Tomlins agreed to follow this up.
Councillor Jones and Aled Roberts stated that there were still complaints of speeding and traffic congestion in Llanon and it was **RESOLVED** to request the Clerk to clarify with the Welsh Government the latest position with regard to the proposed parking restrictions.
Councillor Jones also referred to the Town Centre Adaptations Grant and the Clerk stated that he would ascertain whether it applied to villages.

The meeting concluded at 9:15pm